## Datganiad Cyfathrebu Datblygu'r Gweithlu

Rhoddir gwybodaeth i'n budd-ddeiliaid/partneriaid am bob cwrs hyfforddi sy'n ymwneud â'r holl gymwysterau perthnasol, Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan a'r rhai sy'n cefnogi datblygiad proffesiynol parhaus.

Rhennir yr wybodaeth hon drwy ddefnyddio cyfeirlyfr hyfforddiant blynyddol (yn electronig) a thrwy Gynllun Hyfforddiant a chronfa ddata Hyfforddiant y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Caiff testunau hyfforddi a dyddiadau ychwanegol eu hychwanegu yn ystod y flwyddyn a bydd manylion yn cael eu hanfon dros e-bost pan fyddan nhw'n cael eu cyhoeddi. Rhoddir gwybod i ymgeiswyr pan fydd eu llefydd wedi'u cadarnhau neu pan na ellir cymeradwyo cais.

Mae'r Cyfeirlyfr a'r Cynllun Hyfforddi ar gael ar wefan Cyngor Sir y Fflint gyda manylion yr holl gyrsiau a sut i wneud cais amdanyn nhw, ynghyd â ffurflen gais allanol wedi'i darparu gan wdt@flintshire.gov.uk

Er bod y rhan fwyaf o'n hyfforddiant yn cael ei ddarparu yn rhad ac am ddim, mae'n bwysig nodi bod rhai cyrsiau **Craidd** yn destun ffi ar gyfer darparwyr gofal annibynnol. Mae gan y Cyngor yr hawl i godi tâl am beidio â mynychu, yn unol â'n polisi codi tâl.

Yn unol â'r Strategaeth Gwybodaeth i'r Cyhoedd a Deddf yr Iaith Gymraeg, byddwn bob amser yn ceisio dilyn yr egwyddorion canlynol ynghylch gwybodaeth i'r cyhoedd a gwybodaeth a gyhoeddir ar wefan Sir y Fflint:

- Wrth ddatblygu taflenni gwybodaeth am y gwasanaethau ydym ni'n eu darparu, rydym yn ymrwymedig i egwyddorion iaith glir a mynediad at wybodaeth. Byddwn yn cynhyrchu ein gwybodaeth i'r cyhoedd yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg) lle bo hynny'n bosibl ac mewn ieithoedd a fformatau eraill yn ôl y gofyn, yn unol â safonau corfforaethol ac arfer da derbyniol.
- Mae tudalennau'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn darparu gwybodaeth fanwl am ein gwasanaethau ac yn rhoi cyfle i aelodau'r cyhoedd gyfathrebu gyda'n gwasanaethau ar-lein. Rydym hefyd yn rhoi dolenni i'ch cyfeirio at adnoddau defnyddiol eraill ar-lein a gwefannau ein partneriaid.
- Byddwn hefyd yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo gwybodaeth newydd i'r cyhoedd lle bo hynny'n briodol.

Mae Tîm Datblygu'r Gweithlu yn mynychu cyfarfodydd Darparwyr i drafod cyfleoedd hyfforddi a datblygu staff sydd ar gael, nodi bylchau a phroblemau gyda'r trefniadau presennol a'u datrys lle bo hynny'n bosibl, a chanfod ac ymateb i anghenion hyfforddi sy'n codi drwy'r gwasanaeth.

Mae’r canlynol yn mynychu cyfarfodydd Darparwyr.

- Darparwyr o’r Sector Annibynnol
- Darparwyr Gofal i Oedolion
- Darparwyr Gofal Cartref
- Darparwyr Gofal i Blant
- Tîm Datblygu'r Gweithlu CSyFf
- Tîm Monitro Contractau CSyFf
- Uwch Reolwr – Diogelu a Chomisiynu

Mae’r budd-ddeiliaid yn cynnwys:

- Pob cartref gofal cofrestredig, darparwyr annibynnol a darparwyr gofal cartref yn Sir y Fflint
- Pob cartref plant, asiantaethau maethu a mabwysiadu cofrestredig yn Sir y Fflint
- Cynrychiolir addysg uwch ac addysg bellach gan Brifysgol Wrecsam, Coleg Cambria a Phrifysgol Bangor.

Yn ogystal â’r budd-ddeiliaid allweddol hyn, gall cyrsiau hyfforddi fod ar gael i aelodau o:

- Sefydliadau gwirfoddol annibynnol sy'n cyflogi gweithwyr gofal cymdeithasol neu Weithwyr Cymdeithasol
- Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)
- Cymunedau am Waith / y Ganolfan Byd Gwaith
- Y Blynyddoedd Cynnar trwy Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir y Fflint
- Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a Gwasanaeth Ieuenctid Sir y Fflint
- Cynorthwywyr Personol sy’n darparu gwasanaethau gofal a chefnogaeth
- Darparwyr heb eu rheoleiddio sy’n darparu cyngor a chymorth lefel is, e.e. Gofalwyr Micro
- Gofalwyr sy’n derbyn tâl a’r di-dâl

Gofynnir am farn defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr gan ddefnyddio adnoddau gwerthuso a fforymau presennol.